**Fforwm Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru**
**Cofnodion y 9fed Cyfarfod**

25 Mehefin 2013, tros gynhadledd fideo

**1. Croeso, cyflwyniadau a diweddariadau sefydliadol**
**Yn bresennol**: **Bangor**: Iolo Lloyd (CNC - Cadeirydd), Jean Matthews (CNC - Cofnodion)

**Llandeilo**: Steve Lucas (YCY), Isabel Macho (Cyngor Sir Gâr), Jenny MacPherson (VWT – MISE), Mike Jenkins (CNC), Becky Clews-Roberts (Cymdeithas y Mamaliaid)

**Ymddiheuriadau**:) Liz Halliwell (CNC), Ceri Morris (CNC – MISE), Lizzie Wilberforce (WTSWW), Henry Schofield (VWT), Rob Strachan (CNC), Jane Garner (CNC), Matthew Ellis (CNC), Rob Parry (WTSWW), Kate Williamson (Cymdeithas y Mamaliaid), Daniel Adam (Cyngor Gwynedd), David Cowley (Cyngor Ynys Môn), Rebecca Pritchard (Menter Môn).

**Diweddariad CNC.** Strwythur yn dal i gael ei ddiffinio, mae'r rhan fwyaf o staff ar lefel swyddog yn yr un grwpiau a lleoliadau o hyd ac yn gwneud yr un gwaith. Dylai newidiadau strwythurol fod wedi'u cwblhau erbyn mis Medi.

**2. Diweddariad ar Brosesau CGB**
<u>Cyfarfodydd GARh a'r Grwpiau Ecosystemau</u>.
Adroddodd Isabel yn ôl o'r seminarau bioamrywiaeth ym mis Chwefror. Gweithdai ar sut y gall grwpiau ecosystemau weithio, ond does dim byd wedi deillio ohonynt eto. Roedd cynrychiolwyr i fod i ddod o adran bioamrywiaeth LlC (Dai Harris ac un arall), ond nid oedden nhw na dirprwyon yn bresennol, felly teimlwyd bod y cyfarfod yn llai defnyddiol nag y dylai wedi bod.
GARh i fod i gwrdd ar 4 Gorffennaf. Mae'n bosib y byddwn yn gwybod mwy am y broses ddiwygiedig yn y cyfarfod o Fwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru ar ddydd Gwener y 28ain.
**PWYNT GWEITHREDU 1. Steve** i godi'r mater o ddiffyg cynrychiolaeth gan LlC ac adrodd yn ôl o WBSB. **Jean** i godi hyn gyda Julia.

<u>Lliniaru o ran llygod y dŵr a diweddariad trwyddedu.</u>
Cynhaliwyd gweithdy yn Lloegr i drafod y defnydd o'r dechneg ddadleoli ar gyfer symud llygod y dŵr a pha un a ddylid trwyddedu hon ai beidio a hefyd yr angen am fwy o arweiniad ar gymhwyso'r dechneg hon o'i gymharu â thrawsleoli. Cadarnhawyd y dylid defnyddio dadleoli dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig a chytunwyd bod angen gwneud hyn yn fwy echblyg mewn arweiniad diwygiedig. Cytunodd y SNCO i adolygu'r sefyllfa gyfreithiol a'r prosesau trwyddedu. (Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trwyddedu gwaith a gyflawnir er datblygiad o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad fel y mae ar gyfer EPS yn y Rheoliadau Cynefinoedd).
**PWYNT GWEITHREDU 2. Jean a Rob S** i adrodd yn ôl ar gyngor diwygiedig a'r broses drwyddedu.

Cafwyd peth trafodaeth ynghylch y broses o drwyddedu "Rhaglen Waith" y mae CNC yn ei datblygu lle y gellir rhoi trwydded i awdurdod mewn perthynas â nifer o weithrediadau ar fwy nag un safle, gan ddefnyddio cyfres o reolwyr. Ar hyn o bryd mae hyn yn cael ei datblygu gyda'r sector coedwigaeth trwy CNC ac yna caiff ei gyflwyno i'r sector coedwigaeth preifat ac i staff NNR ac eraill ar gyfer trwyddedau

cadwraeth (eisoes yn cael ei defnyddio yng ngogledd-ddwyrain Cymru gyda staff cefn gwlad ALl. Nododd MJ y byddai hyn yn ddefnyddiol ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd a llygod y dŵr.

**3. Diweddariadau prosiectau/partneriaid**
Dim ond un diweddariad a gafodd ei gylchredeg cyn y cyfarfod a gofynnodd JMa y dylid anfon diweddariadau cgaph i'w cylchredeg gyda'r cofnodion.
**PWYNT GWEITHREDU 3. Pawb** Anfonwch ddiweddariadau trwodd erbyn diwedd yr wythnos

**PWYNT GWEITHREDU 4. Jean** i ofyn i Tracey a yw hi'n mynychu cyfarfodydd CGBLl Gogledd Cymru i ofyn am gynrychiolydd a dirprwy.

**4. Prosiect MaMoNet (Rhwydwaith Monitro Mamaliaid).**
Becky yw'r swyddog prosiect gyda MaMoNet Cymru sy'n gweithio i'r Gymdeithas Famaliaid. Mae'r prosiect wedi derbyn grant 1 flwyddyn gan CNC ac ariannu o Grŵp Mamaliaid Cymru sydd bellach wedi dod i ben. Dechreuodd y prosiect ym mis Ebrill a'r gobaith yw y bydd y prosiect yn parhau dros yr hir dymor, ac mae'n ymgeisio am ariannu gan y Gronfa FfAN (CNC) a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Yn y lle cyntaf mae'n canolbwyntio ar ddraenogod a llygod y cynhaeaf. Camau gweithredu allweddol:-
i) hyrwyddo'r defnydd o'r ôl troed draenogod. Mae'r rhain ar gael gan Becky neu gallwch wneud eich un eich hun. Mae'r opsiwn o gael 10 twnnel ar gyfer prosiect lleol ar raddfa ehangach.
ii) llygod y cynhaeaf - bydd y prosiect yn cynnal chwiliadau o nythod mewn ardaloedd nad ydynt wedi'u targedu gan MISE.
iii) trefnu cynhadledd ym mis Chwefror 2014, yn Aberystwyth yn ôl pob tebyg.
iv) Y flaenoriaeth arall yw'r Atlas Mamaliaid.

**PWYNT GWEITHREDU 5. PAWB –** bwydo unrhyw awgrymiadau o ran cysylltiadau a phrosiectau i Becky e.e. taflenni ar gyfer addysg FC CNC a dolen i'r wefan.

**5. Prosiect llygod y cynhaeaf a data rhywogaethau**
**Prosiect llygod y cynhaeaf -** mae prosiect Cofnod bellach wedi'i gwblhau a bydd angen cylchredeg yr adroddiad. Mae'n adroddiad mawr felly mae wedi cael ei anfon i CNC trwy ddolen lawrlwytho. Wedi'i anfon at Ceri a Becky.
**PWYNT GWEITHREDU 6. Jean** i anfon y ddolen ymlaen at Jenny.
**PWYNT GWEITHREDU 7. Liz & Jean** i ystyried sut i gylchredeg yr adroddiad i eraill. Y nod yw canolbwyntio ymdrechion yr arolwg ar y safleoedd mwyaf tebygol yn gyntaf.

**Data Rhywogaethau –** Nid oedd modd i Barnaby Letheren ddod i'r cyfarfod, ond mae wedi anfon papur i'w gylchredeg gyda'r cofnodion (ynghlwm wrth ddiwedd y cofnodion hyn).
Data TG heb fod ar gael o hyd – bydd WEL yn codi hyn eto.
**PWYNT GWEITHREDU 8. Steve** trwy WEL– bydd yn parhau i godi hyn.

**6. Camau gweithredu CGB Mamaliaid** - mae Steve wedi anfon enghraifft ddiwygiedig o'r Cynllun Gweithredu cyffredin ar ystlumod lleiaf. Mae angen adolygu camau gweithredu a thargedau'n ffurfiol.

**PWYNT GWEITHREDU 9. ARWEINWYR RHYWOGAETHAU** i fwrw golwg ar adolygu targedau a'u cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf ar 8 Hydref. (Jean a Steve i drafod amserlen ar gyfer adolygu PG ystlumod).

Adroddiadau Erthygl 17 yn destun ymgynghori.
**PWYNT GWEITHREDU 10.** Arweinwyr Rhywogaethau i wirio a yw mapiau dosbarthiad yn gywir.

**7. Adolygu Prosiectau â Blaenoriaeth**
Nid yw FfGBMC wedi cyfrannu at y rhestr bylchau mewn tystiolaeth. Awgrymu tynnu prosiectau posib allan o'r daenlen rhywogaethau â Blaenoriaeth i'w hanfon allan gyda'r cofnodion gyda cholofn ychwanegol ar gyfer prosiectau awgrymedig a chael llyfrgell o brosiectau y gellir eu defnyddio ar gyfer y broses Bylchau mewn Tystiolaeth ac ar gyfer ceisiadau ariannu yn y dyfodol
**PWYNT GWEITHREDU 11. Jean** i siarad â Tracey i gael adborth ar y broses a sut mae'n gweithio, ac anfon taenlen allan i aelodau.
**PWYNT GWEITHREDU 12. PAWB** i edrych ar y daenlen a llenwi prosiectau posib.

Prosiectau REF posib. Bydd Marina CyM yn rhoi cynnig i mewn ar gyfer estyn MaMoNet. Lizzie W yn rhoi swydd swyddog llygod y dŵr i mewn. Prosiectau i gael eu cymeradwyo gan y panel, ond ddim yn sicr pwy sydd arno neu sut y cafodd hynny ei benderfynu.

Awgrymiad i ystyried cael cyfarfod FfGBMC ym mis Mai i weddu i gyfle ariannu Ecosystemau yn y dyfodol.

**7. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a phwyntiau gweithredu**

**PWYNT GWEITHREDU 1:** LH i holi Sian Whitehead am bapur Fforwm Adar Cymru o ran dolenni i grwpiau Ecosystemau. *Nodyn ar ôl y cyfarfod – papur trafod yw hwn ar y broses targedau a gweithredu, mae ar ffurf drafft o hyd ond fe gaiff ei gyflwyno i GARh.*
**Cam Gweithredu newydd** Jean i adrodd yn ôl o GARh ar gamau gweithredu, papur a thrafodaeth.
**PWYNT GWEITHREDU 2**: Steve i adolygu cynlluniau gweithredu ystlumod, cwblhau'r cynllun gweithredu generig ar gyfer ystlumod a'i gylchredeg. *Wedi'i Gwblhau*
**PWYNT GWEITHREDU 3**: Liz i adnabod p'un a ellir cyfuno unrhyw rai o'r cynlluniau gweithredu mamaliaid sy'n weddill i'r cynllun trosgynnol. **Cam Gweithredu 13 parhaus.**
**PWYNT GWEITHREDU 4**: Steve i gylchredeg y daenlen Glastir ac ystlumod eto. *Wedi'i Gwblhau.*
**PWYNT GWEITHREDU 5**: LH/JM i godi pryderon ynghylch y llif data rhwng LRC, NBN gyda thîm data CCGC. Gofynnodd Barnaby Letheren a allai ddod i'r cyfarfod ar 25 Mehefin. *Wedi'i Gwblhau - Papur wedi'i gylchredeg gyda'r cofnodion.*
**PWYNT GWEITHREDU 6:** Jean i roi diweddariad ar waith mapio ystlumod coetir prin. *Mapio wedi'i gwblhau – adroddiad i'w gwblhau a'i gylchredeg.*
**PWYNT GWEITHREDU 7:** Jean, Henry a Steve i ystyried y camau nesaf ar gyfer y prosiect ystlumod coetir prin a pha un a fyddai'n bosib ai beidio i ymgeisio am arian Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Gallai fod problem o ran amseru. *Parhaus*

**PWYNT GWEITHREDU 8:** Jean i ddarparu diweddariad ar y prosiect Landscapes for Lessers. *Mapio wedi'i gwblhau – adroddiad i'w gwblhau a'i gylchredeg. Camau gweithredu pellach wedi'u trafod gyda Steve.*
**PWYNT GWEITHREDU 9:** Jenny, Ceri a Lizzie i drefnu dyddiad hyfforddi llygod y cynhaeaf yng ngwarchodfa Parc Slip WTSWW. *Wedi'i wneud. Dydd Iau 5 Medi*.
**PWYNT GWEITHREDU 10:** CCGC i ofyn am gynrychiolydd CGBLl ar gyfer Gogledd Cymru. Wedi'i wneud - cysylltwyd â nifer o bobl, ond ddim cynigion. Wedi'i drafod o dan Gam Gweithredu 4.
**PWYNT GWEITHREDU 11:** Jenny, Jean a Rob i drafod prosiect geneteg llygod y dŵr yn MISE. *Parhaus, trafod yn y cyfarfod MISE ar 22 Awst*
**PWYNT GWEITHREDU 12:** Jean a Liz i gylchredeg canlyniadau coladu data ar gyfer llygod y cynhaeaf etc mor fuan ag y maent ar gael. Byddant ar gael yn fuan yn dilyn cwblhau adroddiadau Erthygl 17.

**7. Unrhyw fusnes arall –** Dim byd

**8. Dyddiad y cyfarfod nesaf**
8 Hydref 2013 – Cadeirydd Henry Schofield. Yn canolbwyntio ar gymeradwyo camau gweithredu a thargedau diwygiedig. Prosiectau posib ar gyfer ceisiadau am ariannu CNC.
Chwefror 2014? Mai 2014 – Ffocws ar brosiectau posib ar gyfer ariannu ecosystemau